



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Hydref 2018

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 22

Llwyddo: 6

Ychydig dros chwarter yr ymgeiswyr a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, er bod sawl un arall wedi llwyddo i gyrraedd y safon mewn un darn, ond heb gynnal y safon honno ar hyd y papur arholiad. Cafodd ambell un hwyl arbennig ar y gwaith, a llwyddo i gyrraedd safon rhagoriaeth mewn un darn, neu'r ddau mewn un achos. Gellid dweud bod tua hanner yr ymgeiswyr yn amlwg yn deall beth yw safon Aelodaeth Sylfaenol, ac yn agos iawn at gyrraedd y safon honno hyd yn oed os na lwyddwyd yn yr arholiad y tro hwn.

Gwaetha'r modd, fodd bynnag, cafwyd hefyd nifer o gynigion lle roedd y gwaith a gyflwynwyd yn llawn gwallau esgeulus, ac ambell un lle roedd yr ymgeiswyr yn amlwg wedi'u trechu gan y ddau ddarn. Mae'n ddigon dealladwy y byddai rhywun o bosib yn mentro ar yr arholiad (hyd yn oed heb brofiad o gyfieithu) i weld beth yn union sy'n ofynnol, ond byddai'n ddoethach dilyn e-weithdy gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gyntaf, i arbed profiad sy'n sicr o fod yn un digalon os yw'r darnau y tu hwnt i'ch gallu.

Ystyr oedd yn achosi'r trafferthion pennaf yn y gwaith a gyflwynwyd, e.e.:

...apply for a Bronze or Silver award

...gwneud cais am wobr Aur neu Arian

...the whole population

...y boblogaeth ar ei hyd

...member institutions

...sefydliadau aelodog

...literacy skills

...sgiliau llenyddol

...ethnic background

...cefnidir cenedlaethol

...many children do not have enough play opportunities at home
...nid oes gan blant ddigon o gyfle i chwarae adref

...and recognizing symbols
...a chydabod symbolau

...minority ethnic staff and students
...staff ethnig lleiafrifol a myfyrwyr
...staff a disgyblion
...lleiafrifoedd ethnig ymysg staff a myfyrwyr
...staff a myfyrwyr ethnig

Go brin y gellid dweud bod unrhyw un o'r termau uchod yn anghyfarwydd, ac yn sicr byddai disgwyl i gyfieithwyr ddod ar draws pob un ohonynt wrth eu gwaith, felly siom oedd gweld methiant i'w cyfieithu'n llwyddiannus yn y sgriptiau arholiad. Mae gwallau o'r math hwn yn awgrymu nad yw'r ymgeiswyr wedi darllen y gwreiddiol yn ofalus cyn mynd ati i gyfieithu, a chadarnhawyd y dybiaeth honno gan y ffaith bod un ymgeisydd wedi anwybyddu'r troednodyn a roddwyd (er hwylustod) er mwyn arbed neb rhag pryderu am un term penodol yn yr arholiad.

Wedi dweud hynny, cafwyd gan yr ymgeiswyr gorau enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus, effeithiol, oedd yn cyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Cymraeg cadarn, graenus:

UK higher education cannot reach its full potential unless it can benefit from the talents of the whole population and until individuals from all ethnic backgrounds can benefit equally from the opportunities it affords.

Er mwyn cyflawni ei photensial yn llawn rhaid i addysg uwch y DU fanteisio ar dalentau'r boblogaeth gyfan a sicrhau y gall unigolion o bob cefndir ethnig elwa i'r un graddau ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

...until individuals from all ethnic backgrounds can benefit equally from the opportunities it affords.

...hyd nes y gall unigolion o bob tras ethnig elwa'n gyfartal ar yr holl gyfleoedd sy'n deillio ohoni.

They also tend to be in groups of children of the same age rather than mixed-age groups, with no older children to act as "play mentors".

Maent hefyd yn dueddol o fod mewn grwpiau o blant sydd o'r un oedran yn hytrach na grwpiau oed cymysg, heb unrhyw blant hŷn i weithredu fel "mentoriaid chwarae".

...more adult-organized and directed activities than in the past

...mwy o weithgareddau'n cael eu trefnu a'u harwain gan oedolion nag yn y gorffennol

...play is linked to growth in memory, self-regulation, oral language, and recognizing symbols

...cysylltir chwarae â datblygu'r cof, hunanreolaeth, iaith lafar ac adnabod symbolau

Mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos bod yr ymgeiswyr wedi deall hanfod cyfieithu, a'u bod yn gallu cynnig gwaith llwyddiannus, sy'n cyrraedd y safon. Wedi dweud hynny, siom oedd gweld nifer o'r ymgeiswyr yn gwneud camgymeriadau camdreiglo a chamsillafu, e.e.:

***o'r cyfleoedd y mae'n ei chynnig
cyfleoedd i adeiladu dychymig
plant hŷn y gymryd rolau
Ni all addysg uwch... gyrraedd ei lawn botensial
y ddigon o gyfle
does dim plant hyn [yn lle hŷn]
siarter wedi ei selio [yn lle seilio]
mae hiliaeth yn ran dyddiol
A'i dim ond rhywbeth
meysydd arall
Oherwydd ddylanwad
nid yw'n bosibl i blant cael cyfleoedd***

Er bod modd maddau ambell lithriad bach o'r math hwn o dan amodau arholiad, mae angen i gyfieithwyr feithrin y gallu i ddarllen eu gwaith yn fanwl, â llygad craff, fel nad yw'r math yma o wallau esgeulus yn cael eu cyflwyno i'r arholwyr.

Siom hefyd oedd gweld cynifer o ymgeiswyr y tro hwn yn cael trafferth gyda chystrawennau'r Gymraeg, ac yn mynd ati'n llafurus i gyfieithu'r gwreiddiol fesul gair, yn hytrach na dadansoddi'r ystyr a'i gyfleu mewn ffordd fwy naturiol Gymreig, e.e.:

***Mae'n darparu fframwaith drwy hynny mae sefydliadau yn gweithio i adnabod a hunanystyrio ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol y saif yn ffordd staff a myfyrwyr ethnig lleiafrifol.
...osgoi datrysiadau sy'n pwysleisio ar newid yr unigolyn
...mae rhagor o weithgareddau wedi'u trefnu gan, ac ar gyfer oedolion
...mae mwy o weithgareddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer oedolion a'u hanelu atynt nag o'r blaen
...newid diwylliannol sefydliadol tymor hir
...rhyngweithio â theganau nad yw'n eu hannog i greu
Mae yno blant eraill i'w chwarae gyda nhw, lleoliad a ellir ei drefnu er mwyn cynefino chwarae dychmygus***

Mae enghreifftiau fel y rhain mor drwsogl nes bod bron yn ddiystyr, a chyn rhoi cynnig ar yr arholiad eto, mae angen i'r ymgeiswyr hyn edrych o'r newydd ar eu dull o fynd ati i gyfieithu. Rhaid cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwneud hynny mewn modd naturiol i'r iaith darged, ac mae hynny'n aml yn golygu bod rhaid 'dadbacio' rhywfaint ar yr ystyr, yn hytrach na chyfieithu'n slafaid.

Fel y soniwyd eisoes, cafwyd enghreifftiau da ac addawol gan nifer o'r ymgeiswyr, ond fel mor aml, roedd methiant i ddarllen y gwaith yn ddigon gofalus cyn ei gyflwyno wedi peri i ambell un foddi yn ymyl y lan. Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn

annog pawb o'r ymgeiswyr i feithrin y grefft o ddarllen a golygu eu gwaith, er mwyn parhau i ddatblygu eu medrau.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 6

Llwyddo: 1

Gwaetha'r modd, dim ond un ymgeisydd lwyddodd i gyrraedd y safon angenrheidiol y tro hwn, ac roedd hynny'n siom. Wedi dweud hynny, roedd pob un o'r papurau yn cynnwys enghreifftiau o gyfieithu da, ac roedd sawl un o'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn agos at gyrraedd y nod, er na lwyddwyd i gynnal safon y cyfieithu ar hyd y papur.

Roedd y darn cyntaf yn trafod byd addysg, ond nid ar lefel mor arbenigol fel bod yr eirfa'n achosi trafferth i unrhyw un sy'n ymwybodol o faterion cyfoes a'r newyddion diweddaraf. Syndod, felly, oedd gweld camgyfieithu ar rai geiriau digon cyfarwydd, e.e.:

Mae Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru wedi lansio rhwydwaith newydd...

The Welsh Education Secretary has launched a new strategy...

...lleoliadau gofal plant

...child care placements [yn lle 'settings']

Y gobaith yw y bydd y rhain yn rhannu arbenigedd...

The hope is for these leaders to share specialities... [yn lle 'expertise']

Mae ymarferwyr yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud gwaith rhyfeddol.

Operators in the Foundation Period are doing wonderful work.

Gan nad oedd modd i'r ymgeiswyr wirio termau ar y we, ni chosbwyd neb am derminoleg anghywir megis 'Foundation Period', ond rhaid cwestiynu sut gall unrhyw un sy'n gweithio ym maes cyfieithu osgoi clywed term mor gyfarwydd â'r 'Cyfnod Sylfaen'.

Cafodd ambell ymgeisydd well hwyl ar yr ail ddarn – yn wir, roedd un wedi llwyddo yn y darn hwnnw er nad oedd wedi llwyddo i gynnal y safon yn y darn cyntaf. Roedd testun y darn hwn yn fwy cyffredinol, ond unwaith eto, gwaetha'r modd, cafodd rhai geiriau digon cyfarwydd eu camgyfieithu, e.e.:

...dianc rhag erledigaeth hiliol

...fled religious persecution

...roedd y mwyafrif helaeth yn gweithio yn y byd masnach a manwerthu

...the vast majority worked in business and commerce

...pan sicrhawyd prydles

...when a lease was assured

Daw'r dystiolaeth gynharaf...

The most recent evidence...

Gwaetha'r modd, mae enghreifftiau fel y rhain yn dangos bod yr ymgeiswyr heb ddarllen y gwreiddiol yn ddigon gofalus. Maent hefyd, wrth gwrs, yn dangos eu bod heb ddarllen eu cyfieithiadau'n ddigon manwl cyn eu cyflwyno, ac mae'n drueni mawr gweld gwallau fel hyn yn amharu ar waith sydd, mewn manau, yn ddigon addawol.

Yn ogystal â gwallau fel y rhai a nodwyd uchod, cafwyd enghreifftiau o fynegiant chwithig yn y ddau ddarn, e.e.:

...dyma oedd y math o swyddi yr oedd Iddewon yn tueddu i'w gwneud

...these were the kind of jobs tended to be done by Jews

...gwladwriaethau yng nghanol Ewrop yn bennaf

...states in the middle of Europe, mainly

...o bob rhan o fyd addysg

...from all areas of the world of education

...er mwyn rhoi mwy o gymorth i'r athrawon hynny

...in order to greater support those teachers

Mae enghreifftiau fel y rhain yn glynu'n rhy agos at batrwm y gwreiddiol, ac o ganlyniad yn methu â tharo deuddeg yn yr iaith darged.

Wedi dweud hynny, cafwyd enghreifftiau o gyfieithu cryf, idiomatig yn y ddau ddarn yn ogystal, e.e.:

...sut mae athrawon yn dysgu'r Cyfnod Sylfaen

...how teachers deliver the Foundation Phase

...mae'r ymarferwyr hyn yn haeddu pob cefnogaeth

...these practitioners deserve full support

Mae'r datblygiad hwn yn mynd i wraidd...

This development goes to the heart of...

...yn llawn gwybodaeth ddefnyddiol

...containing a wealth of useful information

Roedd enghreifftiau fel y rhain yn llwyddo, nid yn unig i gyfleu ystyr y gwreiddiol, ond hefyd i wneud hynny mewn ffordd naturiol yn yr iaith darged.

Fel y soniwyd eisoes, gwelwyd elfennau addawol ar draws y gwahanol sgrïptiau arholiad, felly wrth longyfarch yr un ymgeisydd a lwyddodd i gyrraedd y safon, gobeithio y bydd y rhai na fuont yn llwyddiannus y tro hwn yn cael budd o'r sylwadau hyn, ac yn manteisio ar

bob cyfle i ddarllen yn eang, bod yn effro i ddatblygiadau'r byd cyfoes, a meithrin eu crefft, er mwyn gallu dod yn gyfieithwyr medrus.

Wrth gloi fy adroddiad, fel bob amser, carwn ddiolch o galon i staff Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru a'r bwrdd arholi am bob cefnogaeth a chymorth.

Fiona Gannon
Tachwedd 2018